



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David

Creu proffil cymunedol ar gyfer eich ysgol PAP1. Gan ddefnyddio llenyddiaeth berthnasol, awgrymwch ffyrdd y gallai'r ysgol ddefnyddio ei lleoliad a'i chymuned i gefnogi dysgu disgyblion.

Yn y traethawd hwn, mi fyddaf yn trafod am fy ysgol PAP1 a'r nodwyddau pwysig amdano'r ysgol fel y lleoliad, y maint a'r prospectws a hefyd trafod am yr awgrymiadau mi fyddaf yn gwneud er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn ymgysylltu gyda'r rhieni/gofalwr a'r gymuned. Mi fyddaf yn rhoi awgrymiadau o sut mae'r ysgol yn gallu defnyddio'r ardal leol gyfagos er mwyn gefnogi'r ddysgu yn y ffordd fwyaf effeithiol am ddatblygiad addysgol y plant. Mi fyddaf yn defnyddio ystod o lenyddiaeth i gefnogi fy newisiadau fel adroddiadau Estyn a'r Llywodraeth Cymru.

Proffil Cymunedol

Lleoli'r ysgol Ac yn sir Castell Nedd Port Talbont a ward Llansawel ac yn cael ei amgylchynu gan dai trefol. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2024) mae Ysgol Ac wedi'i lleoli mewn tref drefol a defnyddir yr ysgol pobl y gymuned er mwyn gwella lles ac addysg y plant. Mae yna hefyd cae tu ôl yr ysgol sy'n cael ei ddefnyddio fel rhan o'r amgylchedd i'r plant dysgu. Yn ychwanegol, mae yna hefyd llyn bach tua milltir i ffwrdd o'r ysgol gyda phlanhigion a bywyd gwyllt, gall hyn rhoi cyfle i'r plant ddysgu am natur a'r wahanol fathau o blanhigion, wahanol ecosystemau. Yn unol â phrospectws Ysgol A (2024) mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys clwb chwaraeon ac ysgolion coedwig. Mae'n wybyddus fod yr ysgol yn cymryd balchder mewn sicrhau fod ganddo'r plant y profiadau pwysig hyn. Bydd o'n werth mawr tuagat datblygiad emosiynol, corfforol, personol a.y.b. Yn ôl *Learning Through Landscapes* (2023, para. 1) "*Outdoor learning improves child development, supports mental health and wellbeing, deepens nature connection and promotes more inclusive and engaging learning*". Awgryma hon fod yr ysgol yn cymryd camau pwysig tuagat sicrhau datblygiad effeithiol i'r plant.

Yn ôl adroddiad arolygiad Estyn (2017, t. 3) mae Ysgol yn cael ei rhannu mewn i 9 wahanol ddosbarthiadau, gyda 1 dosbarth oedfa gymysg gyda'r iaith Cymraeg yn prif ffocws y byd ysgol a'r gwaith. Wrth hefyd edrych ar Fy Ysgol Leol (2024) mae gan Ysgol A 272 o ddisgyblion. Does dim canran diffiniol o faint o blant yn dod o cartrefi Cymraeg ond yn ôl Estyn (2017) roedd nifer bach yn dod o cartrefi cymraeg. Wrth edrych a dadansoddi'r data o Ysgol A, gwelaf fod yna cynyddiad o 26 yn y nifer o

ddisgyblion yn yr ysgol, gall hon cyfleu fod mwy o waith wedi cael ei wneud i hybu plant i ddod i ysgolion Cymraeg neu mae'r boblogaeth yr ardal wedi'i chynyddu. Mae gan Ysgol A poblogaidd mwy nag ysgolion eraill yn yr ardal Castell Nedd Port Talbot gyda'r maint cyfartalog o ddwy cant a chwech (Level The Playing Field, d.d).

Wrth i mi ymchwilio mewn i wefan Ysgol A, wnes i ddod ar draws system CrhA sy'n cael ei defnyddio yn yr ysgol er mwyn sicrhau fod y rhieni yn gallu rhoi allbwn nhw mewn i wahanol bethau i wneud gyda'r ysgol. Wrth edrych ar adroddiad y corff llywodraethu i Rieni (2022) maen nhw'n ddweud yn glir "*Parents are major stakeholders in the school community and have a clear and strong interest in their child's education. It is therefore important that the governing body actively engages with parents*". Mae hon yn rhoi arwydd glir fod yna pwyslais ar ymgysylltiad rhieni. Yn dilyn hyn, darllenais adroddiad Estyn (2017) ysgol A a welais wybodaeth ar y bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni ac enghraifft o'r fath o bethau mae'r ysgol yn wneud i ddod a'r rhieni mewn i addysg y plant er mwyn rhoi cymorth gartref yw mae'r rhieni a'r disgyblion yn craffu llyfrau gwaith gyda'i gilydd er mwyn gwella dealltwriaeth y rhieni o beth maen nhw'n gwneud a hefyd beth mae angen i'r plant gwneud er mwyn gwella ei waith yn bellach.

Wrth ystyried lleoliad Ysgol A, edrychais i yn ddyfnach mewn i'r cymorth mae'r ysgol yn rhoi i ddisgyblion er mwyn sicrhau fod yna dealltwriaeth gyda nhw o'r gweithgareddau hanfodol mewn bywyd fel bwyta ac yfed yn iach. Mae anghenion emosiynol, addysgol a personol y plant hefyd yn cael ei ffocysu arno, sy'n cael effaith positif ar les y plant. Yn ôl Estyn (2017) mae ysgol A yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o wahanol asiantaethau arbenigol fel yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol lleol i sicrhau fod y plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a pryd maen nhw'n mynd adref hefyd.

Awgrym 1 – Ymgysylltu â'r rhieni/gofalwr

Mae yna sawl ffordd mae Ysgol A yn gallu ymgysylltu gyda'r gymuned ond wrth edrych ar ddata'r ysgol, y lleoliad a'r presenoldeb, credaf fod ymgysylltu a'r rhieni/gofalwr yn hollol bwysig i'r datblygiad yr ysgol a'r perthynas rhwng yr ysgol a'r tu fas yr ysgol hefyd.

Wrth ymchwilio mewn i'r sefyllfa deuluol yr ardal a'r fath o le mae'r ysgol wedi cael ei leoli, des i dros erthygl Llywodraeth Cymru (2022) am Ysgolion Bro. Mae system ysgolion Bro yn system sydd wedi cael ei chreu gan y Llywodraeth Cymru sy'n ceisio cael mwy a mwy o ysgolion i ddatblygu partneriaeth gryfach gyda theuluoedd, ymateb i anghenion gwahanol eu cymuned a chydweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau eraill. Wrth edrych ar Ysgol A, credaf fod sicrhau fod yr elfen o'r ysgol fro gydag Ysgol A yn hollol bwysig gan fod yna rôl bwysig iawn gydag ysgol wrth gefnogi plant i ddatblygu amryw o wahanol sgiliau, profiadau ac ymagweddiadau sy'n galluogi i ffynnu (Llywodraeth Cymru, 2022, t. 4). Wrth edrych ar Yn Dyfynnwyd Llywodraeth Cymru "Gan gydweithio ar draws yr ysgol, y cartref a'r gymuned, gallwn gefnogi ein plant a'n pobl ifanc yn fwy effeithiol", credaf bydd hon yn sicr yn rhywbeth i Ysgol A ystyried er mwyn fod yn fwy effeithiol gydag ymgysylltu â rhieni/ofalwr i sicrhau fod y plant yn derbyn y gefnogaeth o'r ysgol a'i rhieni am addysg effeithiol. Dywed Annie E. Casey Foundation (2022) "*Parental involvement also more securely sets these students up to develop a lifelong love of learning* <https://www.waterford.org/education/how-parent-involvement-leads-to-student-success/>, which researchers say is key to long-term success."

Wrth gymryd y dyfyniad hwn, mae rhaid cymryd mewn i ystyriaeth pa mor bwysig yw cyfranogiad rhieni tuagat addysg plentyn a pa mor effeithiol bydd tynnu elfennau ysgol bro tu fewn i ysgol A. Gall ysgolion bro chwarae rôl hynod o bwysig gyda helpu ysgolion i ymgysylltu gyda'r rhieni a'r gymuned trwy weithio mewn partneriaeth a'i gilydd, sicrhau fod yna cyfathrebiad agored gyda'r gymuned.


Ymchwiliais mewn gwahanol glybiau a gweithgareddau mae Ysgol A yn gwneud er mwyn ymgysylltu gyda'r rhieni a'r gymuned er mwyn cael dealltwriaeth ymhellach o sut gallant nhw ddatblygu hon i wella'r amgylchedd mae'r ysgol yn creu o gwmpas y gymuned. Gwelais ar y gwefan ysgol fod ganddyn nhw fudiad meithrin. Un o'r agweddau pwysicaf ar y mater hwn yw'r ffaith mae rhannau o hon yn cael ei rhedeg gan y pwyllgor. Dywed Thomas (d.d.) "*By attending our services and receiving our support your child can follow a smooth and confident journey to Welsh-medium education*". Mae'r pwyllgor Ysgol A yn cynnwys amryw o wahanol rannau o'r gymuned fel rhieni a phobl arall tu fewn i'r gymuned. Mae hon yn cyfleu fod gan yr ysgol ymgyrch i gynnwys y gymuned o fewn ei gweithgareddau a sicrhau fod y rhieni yn cael siawns i fod yn rhan o'r addysg ei phlentyn. Pwynt canolog i'w ystyried wrth

drin a thrafod y rhaglen ‘Dechrau’n Deg’ ysgol A yw’r pris mae rhaid i’r rhieni talu o leiaf deg punt i’r plant cymryd rhan yn y cylch meithrin. Dywed Wrexham County Borough Council (2024) fod pob gwasanaeth ‘Dechrau’n Deg’ yn am ddim am deuluoedd. Serch hyn, gellir ystyried fod yna problem gyda’r sefyllfa’r rhaglen ac mae rhaid meddwl am y teuluoedd sy’n llai ffodus. Ond rhaid cymryd mewn i ystyriaeth o bosib ni fyddai’r ysgol yn derbyn y cyllid o’r awdurdod lleol ac mae rhaid rhoi tâl er mwyn cadw o’n rhedeg. Fodd bynnag, credaf bydd gwneud y cylch meithrin am ddim yn syniad da a bydd yn elwa’r ysgol a sicrhau fod pobl plentyn o unrhyw sefyllfa deuluol yn teimlo’n gynwysedig. Ond nid yw tlodi yn ymwneud â chael dim llawer o arian, mae o hefyd yn ymwneud â pheidio â chael mynediad at y pethau y mae’r dinesydd cyffredin yn eu cymryd yn ganiataol (Smith, 2012, t. 19). Yn fras, mae sicrhau fod pawb yn cael ei chynnwys yn y rhaglen hon yn hynod o bwysig gan fod rhai plant ddim yn cael yr un siawns â phlant eraill ac mae hon yn siawns iddyn nhw deimlo’n gyfartal gyda phawb eraill.

Ond mae theori system Ecolegol Bronfenbrenner (1979) yn berthnasol i’r darn hon. Mae theori Bronfenbrenner yn edrych ar wahanol berthnasau o gwmpas y plentyn, dywed Bronfenbrenner fod yr unig ffordd i archwilio datblygiad plentyn, mae rhaid i ni hefyd cymryd mewn dylanwadau amgylcheddol ymhellach sy’n cael effaith ar y plentyn (MacBlain a Gray, 2015). Felly sicrhau fod y plentyn yn agos at y rhieni yn bwysig iawn am ei datblygiad cyfannol.

Awgrym 2 - Defnyddio’r Ardal Leol gyfagos fel ffordd o gefnogi’r dysgu

Credaf fod defnyddio’r ardal leol gyfagos i gefnogi’r dysgu yn mor bwysig am nifer o wahanol resymau, dysgu trwy brofiadau, dysgu am y gymuned a datblygu ymwybyddiaeth a chysylltu’r dysgu sydd mynd ymlaen yn yr ysgol gyda’r byd go iawn.



[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

Rhestr Gyfeirnodau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham. (2024). *Flying Start | Wrexham County Borough Council*. [ar-lein] Ar gael yn: <https://www.wrexham.gov.uk/service/more-education-information/flying-start>. (Cyrchwyd: 03/01/25)

Estyn (2017). *Adroddiad ar <REMOVED>* [ar-lein] [Cyrchwyd: 4/12/2024].

Gray, C. and Macblain, S. (2015). *Learning theories in childhood*. 2nd ed. London: Sage.(Cyrchwyd: 18/12/24)

Harvey, D. (2022). *5 key benefits of outdoor learning*. [ar-lein] Learning through Landscapes. Ar gael yn: <https://ltl.org.uk/news/5-key-benefits-of-outdoor-learning/>.

Herrnstadt, D. (2019). *Elementary school students should learn local history*. [ar-lein] The Black and White. Ar gael yn: <https://theblackandwhite.net/62617/opinion/elementary-school-students-should-learn-local-history/> [Cyrchwyd: 04/01/25].

Kiewra, C. (2019) Nature Play Supports Children's Creativity. Ar gael yn: https://hdfs.hs.iastate.edu/wp-content/uploads/sites/7/2020/10/Nature-Play_Kiewra.pdf. (Cyrchwyd: 17/12/24)

Leveltheplayingfield.wales (2019). *Neath Port Talbot : Level The Playing Field*. [ar-lein] Available at: <https://leveltheplayingfield.wales/local-authorities/neath-port-talbot> [Cyrchwyd: 03/01/2025].

Louv, R. (2005). *Last Child in the Woods* : Algonquin Books Od Chapel Hill.

Mudiad Meithrin (2024) *Teulu'r Tyle*. Ar gael yn <WEDI DILEU> (Cyrchwyd: 17/12/24)

Smith, E. (2018). *Key issues in education and social justice*. 2nd ed.

The Annie E. Casey Foundation (2022). *Parental Involvement in Your Child's Education*. [ar-lein] The Annie E. Casey Foundation. Ar gael yn: <https://www.aecf.org/blog/parental-involvement-is-key-to-student-success-research-shows>.

Ysgol A (2022) *Adroddiad y Corff Llywodraethu I Rieni*. Ar gael yn <WEDI DILEU> (Cyrchwyd : 12/12/24)

Ysgol A (2024) *Prospectws Ysgol*. Ar gael yn <WEDI DILEU> (Cyrchwyd: 14ed o Rhag 2024)

